VICTIM SUPPORT

# PARÔL

Cyngor a chefnogaeth i ddioddefwyr ynglŷn â pharôl troseddwyr

**victimsupport.org.uk**

13

## Cyngor a chefnogaeth i ddioddefwyr ynglŷn â pharôl troseddwyr

Gall fod yn anodd iawn cael clywed bod yr unigolyn a gyflawnodd drosedd yn eich erbyn wedi cael eu rhyddhau ar barôl. Mae dioddefwyr a goroeswyr yn adrodd eu bod yn profi emosiynau cryf – mae sioc, pryder ac ansicrwydd yn gyffredin – ac maent yn gallu effeithio ar nifer o wahanol agweddau ar fywyd.

Rydyn ni yma i'ch helpu chi yn ystod y cyfnod sensitif hwn. Rydym yn cynorthwyo cannoedd o bobl bob dydd i ymdopi ag effeithiau troseddau, ac nid yw hynny'n dod i ben pan fydd troseddwr yn cael eu canfod yn euog. Rydym yn sylweddoli y gall effeithiau parhaus troseddau barhau am flynyddoedd, beth bynnag fo'r math o drosedd a gyflawnwyd.

Felly os oes angen cymorth arnoch chi neu'ch teulu i ymdopi'n emosiynol neu i ddeall manylion ymarferol a chyfreithiol parôl, gallwn ni helpu.

## Beth yw parôl?

Rhyddhau troseddwr o'r ddalfa gydag amodau ydy parôl.

Dim ond pan fydd troseddwr wedi treulio o leiaf hanner eu dedfryd o garchar y bydd hyn yn digwydd (neu eu bod wedi treulio hyd eu tariff yn y carchar), a dim ond os bydd y Bwrdd Parôl yn penderfynu eu bod yn ddiogel i ailymuno â'r gymuned.

Bydd rhaid i'r troseddwr hefyd gadw at amodau a osodir gan y Bwrdd Parôl; gelwir hyn yn rhyddhau ar drwydded. Os caiff yr amodau hyn eu torri, neu os bydd y troseddwr yn torri'r gyfraith eto, byddant yn cael eu dychwelyd i'r carchar.

Enghraifft bosib o amod ar drwydded ydy bod rhaid cadw draw o leoliad neu unigolyn penodol, neu gadw at gyrffyw. Bydd swyddog parôl yn goruchwylio'r troseddwr yn y gymuned hyd at ddiwedd eu dedfryd.

## Y Bwrdd Parôl

Bob blwyddyn, bydd y Bwrdd Parôl yn gwneud miloedd o benderfyniadau ynglŷn â dyfarnu parôl i droseddwyr ai peidio. Maent yn awdurdod annibynnol, ar wahân i'r llywodraeth a'r gwasanaeth carchardai.

Maent yn gwneud penderfyniadau ar sail asesiadau risg sy'n ystyried gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys y gwasanaeth carchardai, y llysoedd a gweithwyr proffesiynol, megis seiciatryddion.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth ynglŷn â pharôl a'r Bwrdd Parôl yn **www.gov.uk**.

## Cynllun Cyswllt Dioddefwyr

Byddwch chi'n cael gwahoddiad i ymuno â'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr os ydych chi wedi dioddef trosedd dreisgar neu rywiol a bod eich troseddwr wedi cael dedfryd o ddeuddeg mis neu fwy o garchar (neu mewn ysbyty dan y Ddeddf Iechyd Meddwl).

Mae'r Cynllun yn cael ei gynnal gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Os byddwch chi'n penderfynu ymuno â'r Cynllun, ac mae hynny'n gwbl wirfoddol, bydd Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (VLO) yn cael eu pennu ar eich cyfer.

Bydd y VLO yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn ag unrhyw newidiadau i ddedfryd y troseddwr, yn ogystal â sut a phryd y gallent gael eu rhyddhau.

## Datganiadau Personol Dioddefwyr

Mae Datganiad Personol Dioddefwr yn rhoi cyfle i ddioddefwyr egluro wrth y Bwrdd Parôl sut mae'r drosedd y gwnaethant ei phrofi  wedi effeithio arnyn nhw, a sut y gallai parôl y troseddwr effeithio arnyn nhw.

Ni fydd y datganiad yn newid penderfyniad y Bwrdd Parôl yn uniongyrchol, ond mae'n galluogi dioddefwyr i gyflwyno safbwyntiau ynglŷn â'r amodau trwydded a osodir.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, neu am unrhyw agwedd ar y broses parôl, siaradwch â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr neu â Victim Support.

## Sut i gysylltu

Mae ein manylion cysylltu ar glawr cefn y daflen hon. Gallwch ein galw ni wythnosau, fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd ar ôl trosedd.

Rydyn ni wastad yma i wrando ac i helpu.

Ewch i **victimsupport.org.uk** i ddod o hyd i wasanaethau yn agos atoch chi ac i gael rhagor o wybodaeth.

## Sut gallwn ni helpu

Rydym yn elusen annibynnol sy'n cynnig cymorth cyfrinachol am ddim i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt. Gallwn ni helpu yn y ffyrdd canlynol:

- Cefnogaeth ymarferol gan unigolyn sydd wedi cael hyfforddiant arbennig, mewn ffordd sy'n gweithio i chi
- Cefnogaeth emosiynol a chysylltiadau â gwasanaethau arbenigol eraill, megis therapyddion trawma
- Cyngor ynglŷn â darparu mewnbwn i'r Bwrdd Parôl ac ysgrifennu Datganiad Personol Dioddefwr
- Gwybodaeth am y system cyfiawnder troseddol, y llysoedd a gweithdrefnau parôl
- Cyngor ymarferol i'ch helpu chi i deimlo a bod yn fwy diogel.

Rydym yn gwybod bod troseddau'n effeithio ar yr holl deulu. Rydym yn cynnig cefnogaeth i bawb yr effeithir yn uniongyrchol arnynt, ac rydym yn gallu helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi plant.

## Mae amrywiaeth o bwys ac rydym yn ei werthfawrogi

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi anghenion y cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu. Gallwn ni ddarparu cyfieithwyr a gwybodaeth mewn fformatau gwahanol. Os oes gennych anghenion ychwanegol, rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu rhoi'r gefnogaeth iawn yn ei lle.

## Ble i fynd i gael cymorth:

Rydym yn elusen **annibynnol** sy'n cynnig cymorth **cyfrinachol am ddim** i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt.

I gael gwybodaeth a chymorth, cysylltwch â ni drwy:

- ffonio: Supportline **08 08 16 89 111**
- defnyddio ein gwasanaeth sgwrsio byw 24/7: **victimsupport.org.uk/live-chat**
- defnyddio BSL: **victimsupport.org.uk/bsl**
- Ar-lein: **victimsupport.org.uk**

I gael gwybod sut gallwch chi'n helpu ni, ewch i **victimsupport.org.uk/get-involved**

**@VictimSupport**

**VictimSupport**

**victimsupport_uk**

**Linkedin.com/company/victim-support**

Cyhoeddwyd gan Victim Support
Llywydd EHB Y Dywysoges Frenhinol

Victim Support, Llawr Gwaelod, Adeilad 3, Parc Busnes Dwyreiniol, Lôn Wern Fawr, Pentref Llaneirwg, Caerdydd CF3 5EA
Ffôn: 020 7268 0200

Cofrestriad elusen: 298028 Rhif cwmni: 2158780
Cofrestrwyd yn Lloegr. Cyfyngedig trwy warant.
Swyddfa gofrestredig fel uchod.

Ebrill 2024 | P2714 © 2024 Victim Support